

## CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol o Bell a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

### Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorwyr R. Goode a M. Lewis.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorydd M. Michael.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr P. Drake a R. Sivagnanam.

### (a) Cyhoeddiad –

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, atgoffodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu bawb a oedd yn bresennol y byddai'r cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, yn ogystal â'i recordio, drwy'r rhyngwyd a'r recordiad yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol.

### (b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd R. Goode i swydd y Cadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol ac yn unol â'r Cytundeb Cydweithio.

### (c) Penodi Is-Gadeirydd –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd D. De'Ath i swydd Is-Gadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol ac yn unol â'r Cytundeb Cydweithio.

### (d) Ymddiheuriad am Absenoldeb –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd D. De'Ath (Cyngor Dinas a Sir Caerdydd).

### (e) Cofnodion –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2023 fel cofnod cywir.

(f) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(g) Datganiad O Gyfrifon Heb Eu Harchwilio Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir 2022/23 (PC/SA151) –

Paratowyd Datganiad Cyfrifon Anarchwiliedig y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) 2022/23 yn unol â'r arferion priodol fel y'u nodir yng Nghod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA / LASAAC (y Cod). Roedd y Datganiad wedi'i gwblhau, a rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am sefyllfa ariannol GRhR cyn yr archwiliad terfynol mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022/23.

Roedd y Datganiad Cyfrifon yn destun Archwiliad. Gofynnwyd i'r Pwyllgor awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i lofnodi a rhyddhau Datganiad Cyfrifon GRhR i Archwilio Cymru.

Roedd y Datganiad Cyfrifon Anarchwiliedig ar gyfer 2022/23 (sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad), wedi'i ddsbarthu cyn cyfarfod Cydbwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ac roedd hefyd ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

Wedi ystyried yr adroddiad,

## PENDERFYNWYD –

- (1) NODI cynnwys yr adroddiad.
- (2) BOD Datganiad o Gyfrifon y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn cael ei gymeradwyo'n electronig gan yr Aelodau erbyn 28 Mehefin, 2023, gan alluogi'r cadarnhad terfynol i ddigwydd erbyn y dyddiad cau ar gyfer 30 Mehefin, 2023.
- (3) AWDURDODI'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i lofnodi Datganiad Cyfrifon 2022/23 heb eu Harchwilio i'w ryddhau i Archwilio Cymru.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfarfod.
- (2&3) Hwyluso cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

(h) Adroddiad Blynyddol Y Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir (CAT) –

Roedd y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR) yn gydweithrediad rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd a Chyngor

Bro Morgannwg a ddechreuodd ar 1 Mai, 2015, a rhoddwyd cyfrifoldeb iddo am ddarparu Gwasanaethau Rheoliadol ar draws y tri Awdurdod.

Roedd y Cytundeb Cydweithio yn ei gwneud yn ofynnol i Bennaeth y GRhR a'r Pennaeth Cyllid gynhyrchu Adroddiad Blynyddol a anfonir, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor, at y Cynghorau partner.

Roedd yr adroddiad yn rhoi sicrwydd bod y Gwasanaeth a Rennir wedi gwella perfformiad ar draws ei fetrigau traddodiadol yn ystod 2022/23 ar ôl yr aflonyddwch a achoswyd gan bandemig COVID-19. Fodd bynnag, roedd ffordd o glirio'r ôl-groniadau anochel mewn rhai meysydd o waith wedi'i raglennu.

Roedd yr adroddiad hefyd yn myfyrio ar ofynion ychwanegol sy'n cael eu gosod ar y Gwasanaeth drwy, er enghraifft, ddisgwyliad y Llywodraeth y byddai meysydd deddfwriaeth newydd yn cael eu gorfodi er nad oes cyllid newydd, a hyn ar adeg pan roedd y Gwasanaeth wedi gweithredu arbediad cyllideb gwasanaethau craidd o 3% ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Roedd y Pwyllgor wedi cytuno ar Gyllideb GRhR gwerth £8.331m ar gyfer 2022/23 ar 14 Rhagfyr, 2021, a oedd yn cynnwys dyfarniad cyflog tybiedig o 2%.

Cafodd cynnig cyflog Cyflogwyr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol Gorffennaf 2022 ei dderbyn ar ddiwedd 2022, gan arwain at ddiffyg cyllidebol o £268k - er bod hyn hefyd wedi'i wrthbwyso gan swyddi gwag a thanwariannau eraill yn y gwasanaeth yn ystod 2022/23.

Gallai'r amrywiadau niweidiol ar ddiwedd y flwyddyn a ddangosir yn erbyn Caerdydd a'r Fro fod yn gysylltiedig â'r elfennau Awdurdod-benodol o'r gyllideb GRhR a manylwyd arnynt ymhellach ym mharagraffau 2.72 i 2.82 o'r adroddiad.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd GRhR wedi cyflawni diffyg alldro anarchwiliedig o £63k yn erbyn cyllideb £8.331m 2022/23. Dangosir y sefyllfa alldro a ragwelir ar y tabl canlynol:

	Cyllideb	Alldro	Amrywiad
	Gros	a Ragwelir	Alldro
Awdurdod	£'000oedd	£'000oedd	£'000oedd
Pen-y-bont ar Ogwr	1,777	1,703	74
Caerdydd	4,811	4,936	(125)
Y Fro	1,743	1,755	(12)
<b>Cyfanswm Gwariant Gros</b>	<b>8,331</b>	<b>8,394</b>	<b>(63)</b>

Roedd y sefyllfa hon yn amodol ar gwblhau archwiliad Archwilio Cymru o'r cyfrifon hyn.

Wrth gyflwyno'r adroddiad darparodd y Pennaeth Gwasanaeth ar y cyd â'r Rheolwr Gweithredol drosolwg o'r meysydd gwasanaeth canlynol:

- Adnoddau Dynol.
- Perfformiad Gweithredol (dangosir yn Atodiad 1).
- Ystadegau Erlyn GRhR 2022-2023 (dangosir yn Atodiad 2).
- Cyflawniadau gwasanaeth pwysig gan gynnwys Ymyriadau Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd, Diogelwch Adeiladau, Safonau Effeithlonrwydd Ynni Gofynnol, Lles Anifeiliaid, Ansawdd Aer, Diogelu Pobl Fregus, Cefnogi'r Economi Leol a gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau.
- Perfformiad Ariannol (dangosir yn Atodiad 3).
- Heriau wrth symud ymlaen.

Holodd y Cynghorydd R. Sivagnanam beth oedd yn cael ei gynnig i leddfu'r pwysau cyllidebol sy'n gysylltiedig â'r Adran Drwyddedu. Mewn ymateb, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y gorwariant yn benodol i Gaerdydd ac yn gysylltiedig â thangyflawni o ran y targed casglu incwm. Byddai'r targed yn gofyn am ail-gydbwysu a fyddai'n rhan o ymarfer cyfrifeg.

Dywedodd y Cadeirydd fod rhan fawr o'r gorwariant cyffredinol oherwydd nifer y swyddi gwag. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol - Cyfrifeg y byddai'r gyllideb yn seiliedig ar sefydlu staff yn llawn. Roedd pwysau chwyddiant hefyd oedd yn cael ei fonitro yn ogystal â phwysau'n ymwneud â dyfarniadau cyflog staff.

O ran yr arolwg staff, cyfeiriodd y Cadeirydd at y sgôr is a roddwyd gan staff i gydnabod a gwobrwyo, a chwestiynodd y camau a gymerwyd i sicrhau bod y Gwasanaeth yn denu aelodau staff â chymwysterau addas ac i sicrhau bod y gwaith a wnaethant yn cael ei gydnabod a'i barchu. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth na fyddai'r Gwasanaeth yn gallu darparu codiadau mawr i'r dyfarniad cyflog oherwydd pwysau cyllidebol ond bod pethau eraill yr oedd y Gwasanaeth yn eu gwneud i ddenu staff. Byddai hynny'n cynnwys cefnogi swyddogion wrth iddynt ymgymryd ag addysg bellach fel arian cyfatebol ar gyfer cyrsiau gradd. Yn ogystal, roedd gan y Gwasanaeth lwybrau clir ar gyfer dilyniant gyrfa gan ei bod yn bwysig iawn i'r Gwasanaeth 'dyfu ei hun'. Yn olaf, cynigiodd y Gwasanaeth gyfle i brofi amrywiaeth o rolau.

O ran cyfleoedd sy'n is na lefel gradd, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth nad gyrfaoedd o fewn y GRhR oedd y rhai mwyaf gweladwy i fyfyrwyr ac roedd mwy o waith y gellid ei wneud ar lefel genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa ym meysydd safonau masnach, iechyd yr amgylchedd a thrwyddedu. Byddai'r cynllun prentisiaeth rheoleiddiol yn ffordd bwysig o godi diddordeb.

O ran cynnydd mewn absenoldeb salwch staff rhwng 2021/22 a 2022/23, dywedodd y Cadeirydd fod hynny yn ôl pob tebyg gan fod staff yn gweithio gartref o ganlyniad i Covid, a gofynnodd a oedd y Gwasanaeth yn gwbl gefnogol i staff gael cyfleoedd i weithio gartref. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod gweithio gartref bob amser wedi cael ei adlewyrchu yn y ffordd y cafodd gwasanaethau eu darparu, ac roedd polisi gweithio ystwyth y Gwasanaeth yn rhagddyddio'r pandemig Covid.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R. Sivagnanam at doriadau yn ymwneud â safonau masnach a holodd am y gwaith dilynol a fyddai'n cael ei wneud. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Masnachol y gallai toriadau safonau masnach fod yn dwyll-fasnachwr neu'n weithred sy'n targedu gwerthu nwyddau i blant dan oed. Gallai rhai o'r gweithrediadau a'r ymchwiliadau fod yn gymhleth iawn yn enwedig pe bai hynny'n arwain at erlyniad troseddol.

Holodd y Cadeirydd am y rhesymau pam fod y sgoriau hylendid wedi bod yn is ar gyfer rhai sefydliadau bwyd ar gyfer archwiliadau a gynhaliwyd ar ôl Covid. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol - Gwasanaethau Masnachol fod yna amryw o resymau, gydag phrinder staff o fewn y diwydiant lletygarwch yn un ffactor mawr. Roedd natur dros dro y gwaith yn ffactor hefyd, a oedd yn golygu bod problemau hyfforddi ar gyfer staff newydd. Hefyd, roedd oriau gwaith hir yn effeithio ar safonau. Amlygodd y Rheolwr Gweithredol hefyd fod nifer o fusnesau wedi arallgyfeirio yn ystod Covid trwy ddarparu bwydydd newydd a bwydlenni mwy amrywiol, a oedd wedi golygu y gallai fod safonau gwahanol i gydymffurfio â nhw.

Yn dilyn ymholiad gan y Cadeirydd ynghylch cynnydd yn nifer y ceisiadau Cynllunio ar gyfer gosod cŵn mewn cynelau, eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai swyddogion arolygu yn cadw llygad am unrhyw arwyddion o weithgareddau bridio cŵn anghyfreithlon. Ychwanegodd y Rheolwr Gweithredol - Menter a Gwasanaethau Arbenigol fod pwysau ychwanegol wedi bod ar gyfleusterau cynelau lleol gan nad oedd pobl yn gallu gofalu am eu cŵn. Awgrymodd y Cadeirydd fod cyfle i ymgymryd â gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus neu atgyfeirio at y llwybrau cyfrifol pe bai pobl yn teimlo bod gofalu am gi wedi mynd yn ormod.

Gwnaeth y Cadeirydd sylw ar y cynnydd mewn fêpio ymhlith pobl ifanc ac fe holodd am y dadansoddiad o nifer yr achosion o werthu tybaco yn anghyfreithlon a gwerthu cynhyrchion fêpio yn anghyfreithlon i blant. Cytunwyd i anfon gwybodaeth yn electronig. Mynegodd aelodau'r Cydbwyllgor bryder ynghylch dewisiadau ffordd o fyw a phobl yn dechrau fêpio na fyddent erioed wedi ysmegu tybaco o bosib.

Mewn perthynas â materion adrodd ac i gynorthwyo pobl ag atgyfeirio, awgrymodd y Cadeirydd y byddai ffeithlun yn ddefnyddiol ac y byddai o fudd arbennig i Aelodau Etholedig. Cytunodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai hyn yn cael ei ystyried.

Mynegodd y Cydbwyllgor ddiolch a gwerthfawrogiad i'r holl staff o fewn y GRhR am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.

Wedi hynny

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO'r adroddiad ac awdurdodi Prif Weithredwr, Cyngor Bro Morgannwg, i anfon copi o'r adroddiad at Benaethiaid y Gwasanaethau Cyflogedig ar gyfer y Cynghorau partner eraill.

(2) NODI sefyllfa alldro 2022/23 heb ei harchwilio.

### Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Cwrdd â'r gofynion a nodir yng Nghymal 5.1 o'r Cytundeb Cydweithio.
- (2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(i) Cynllun Busnes Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir (CAT) –

Roedd yr adroddiad yn nodi'r broses ar gyfer datblygu Cynllun Busnes drafft y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) ar gyfer 2022/23.

Roedd angen i'r Cydbwyllgor gadarnhau'r Cynllun drafft a oedd yn rhan o broses adrodd flynyddol y GRhR a nodwyd yn y Cytundeb Cydweithio.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaeth at argymhellion a dderbyniwyd gan Bwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel Bro Morgannwg, a oedd wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod. Yr awgrymiadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yw:

- Dylai'r Cynllun nodi'r angen am broses glir lle byddai'r Cynghorau partner yn penderfynu ar unrhyw ailflaenoriaethu sylweddol o wasanaethau a gyflawnir gan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir. Yng nghyd-destun pwysau costau parhaus, fel y rhai sy'n deillio o'r argyfwng costau byw, dylid ystyried sut y byddai ymarfer ailflaenoriaethu o'r fath yn cael ei gyfathrebu, a sut yr ymgynghorir arno, fel rhan o'r broses y gwneir penderfyniad terfynol drwyddi.
- Dylai'r Cynllun hefyd edrych ar sut y gallai Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ymgysylltu mwy ag Aelodau Etholedig ynghylch ardaloedd sy'n peri pryder a diogelwch i'r cyhoedd, megis twyll-fasnachwyr, sgamiau, benthyca arian anghyfreithlon a throseddau ar garreg y drws.

Dywedodd y Cadeirydd mai'r unig awgrym yr hoffai ei weld oedd ynghylch rhagor o wybodaeth i'w chynnwys am y cyfraniadau ariannol a wnaed gan bob un o'r 3 awdurdod lleol cyfansoddol.

Cytunodd y Cydbwyllgor y dylid ymgorffori'r themâu a godwyd gan y Pwyllgor Craffu a'r Cadeirydd yn y Cynllun Busnes ar gyfer 2023/24.

Yn dilyn hynny

### PENDERFYNWYD –

- (1) Y DYLLID nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Busnes Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2023/24.
- (2) AWDURDODI Pennaeth y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir i wneud newidiadau gweinyddol i Gynllun Busnes 2023/24 pe cyfyd yr angen.

### Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Mae'r Cytundeb Cydweithio (CC) yn nodi (yng nghymal 14) y bydd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir bob blwyddyn yn datblygu Cynllun Busnes drafft dan gyfarwyddyd y Bwrdd Rheoli.

(2) Pwrpas y Cynllun Busnes, fel y'i pennir gan y CC, yw diweddarau'r wybodaeth a gynhwyswyd yn y Cynllun Busnes blaenorol; ac i nodi'r cynigion ar gyfer gweithgareddau gwasanaeth, amcanion busnes ac ariannol, targedau effeithlonrwydd, cynllunio parhad busnes, rheoli risg, lefelau staffio dangosol a newidiadau, targedau perfformiad, costau ac incwm. Nododd y CC ymhellach y dylid cyflwyno Cynllun Busnes drafft i'r Cyd-bwyllgor i'w gymeradwyo, ac ar ôl ei gymeradwyo, ei fod yn cael ei ddisbarthu i Bennaeth Gwasanaeth Taledig pob Awdurdod sy'n Cymryd Rhan.

(3) Byddai awdurdod Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud newidiadau gweinyddol i'r Cynllun Busnes yn galluogi mân newidiadau i gael eu gwneud, yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn, heb fod angen dod â'r mater yn ôl i'r Cyd-bwyllgor. Sicrhau y gellir gwneud mân newidiadau yn brydlon mewn ymateb i unrhyw faterion sy'n codi.

### (j) Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2023/24 (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am waith y Tîm Iechyd a Diogelwch a gofynnodd i Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2022/23 gael ei gymeradwyo.

Atodwyd Copi o'r Cynllun Gorfodi Iechyd a Diogelwch drafft ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 1.

Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn manylu ar nodau ac amcanion y gwasanaeth mewn perthynas â gorfodi Iechyd a Diogelwch, a benderfynwyd yn flynyddol. Roedd y Cynllun yn nodi:

- y gofynion ar y gwasanaeth,
- y rhaglen waith yn seiliedig ar risg,
- yr adnoddau sydd ar gael i gyflawni'r gwaith gofynnol

Eglurodd y Cynllun ddisgwyliadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o Awdurdodau Lleol ynghyd â rhai cyflawniadau o 2022/23 a'r heriau a ragwelwyd yn y flwyddyn i ddod.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2023/24.

(2) AWDURDODI Pennaeth y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2023/24 pe cyfyd yr angen.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Sicrhau bod gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir drefniadau cadarn ar waith i gyflawni ei rwymedigaethau fel awdurdod gorfodi o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac i gydymffurfio â chanllawiau statudol.